Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**Diben:** Penderfyniad y Comisiynydd – Cyf. DLl 308

**Amseru:** Unigol

**Teitl:** Rekindle

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** Cyllid

**Crynodeb Gweithredol:**
Dechreuwyd Rekindle yn 1997 yn y Drenewydd gan bobl oedd wedi profi problemau iechyd meddwl o fewn eu teuluoedd. Ers 2014, mae Rekindle wedi canolbwyntio ar bobl yn y grŵp oedran 16-25 yn unig; grŵp oedran lle mae llawer yn profi heriau wrth iddynt bontio o blentyndod i fyd oedolion, a lle mae'n gyffredin i unigolion ddisgyn rhwng y bylchau ar gyfer darpariaeth gwasanaeth statudol. Mae nifer fawr o'u cleientiaid wedi bod yn dioddef cam-fanteisio neu'n ymwneud â gangiau llinellau cyffuriau, neu mewn perygl o fod. Mae eraill wedi dioddef cam-drin domestig neu drais rhywiol, wedi cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol, a chanddynt hanes o Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, yn defnyddio cyffuriau ac alcohol, neu â thueddiadau treisgar.
Mae'r sefydliad hefyd yn rheoli man diogel i ddioddefwyr cam-fanteisio.
Mae Rekindle yn ceisio cyllid o £4,999 gan y Comisiynydd i helpu i gefnogi eu prosiect Cymorth Adfer Un-i-Un.
Diben prosiect Cymorth Adferiad Rekindle yw darparu cymorth iechyd meddwl gan ddefnyddio model adferiad yn seiliedig ar ymyrraeth gynnar. Nod hyn yw cefnogi pob agwedd ar fywydau eu cleientiaid gan gynnwys tai, cydberthnasau, gwaith, hyfforddiant a chyllid, ynghyd â therapi unigol a grŵp manwl.

**Argymhelliad:**
Cyfrannu £4,999 i gefnogi prosiect Cymorth Adfer Un-i-Un Rekindle.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw fuddiant personol neu ragfarnus yn y mater hwn a gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion Nolan ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod.

**Llofnod:** **Dyddiad: 29/06/23**